

Cynllun Llythrennedd yn y Cyfryngau S4C

Ionawr 2009

Cynllun Llythrennedd yn y Cyfryngau S4C

Nod

Mae S4C wedi llofnodi Siarter y DU dros Lythrennedd yn y Cyfryngau ac rydym yn ymroddedig i'w hegwyddorion ac i hyrwyddo a datblygu Cymru a'r DU fel gwledydd sy'n llythrennog yn y cyfryngau.

Cred S4C fod llythrennedd yn allweddol ym mhob math o gyfryngau er mwyn galluogi pobl i fod yn ddinasyddion cyflawn, gan gymryd rhan lawn mewn cymdeithas ddemocrataidd a sifil.

Amlinella'r Cynllun Llythrennedd yn y Cyfryngau sut yr ydym yn cyflawni'r cyfrifoldebau yr ydym wedi eu derbyn.

-Gweithredu

- Mae S4C yn aelod o Rwydwaith Llythrennedd yn y Cyfryngau Cymru a chynhaliodd y Sianel gyfarfod cyhoeddus cyntaf y Rhwydwaith yn ei phabell ar faes yr Eisteddfod ym mis Awst 2007.
- Rydym wedi cynhyrchu taflen wybodaeth ddwyieithog i'r cyhoedd, 'Pwyso'r Botwm,' (Push the Button) sy'n cynnig arweiniad syml ar sut i wneud defnydd o'n gwasanaethau digidol a'n gwasanaethau atodol. Bu hon ar gael yn holl ddigwyddiadau'r haf ac fe'i anfonwyd at ran ddeiliaid perthnasol.
- Cynhaliwyd dwy seminar gyhoeddus er mwyn amlinellu'r ystod gyfan o wasanaethau mynediad sydd bellach ar gael ar S4C. Roedd y digwyddiadau yn cynnwys arddangosfa isdeitlo, disgrifiadau clywedol, gwasanaethau newydd ar y rhyngwrwd a meddalwedd cydnabod llais ar gyfer isdeitlo byw. Mynychodd Aelodau Cynulliad a chynrychiolwyr o'r RNID, RNIB a grwpiau eraill y seminarau. Gwerthfawrogwyd y seminarau gan ddefnyddwyr ein gwasanaethau.
- Yn 2007 lansiodd S4C brand newydd fel rhan o'r newid i deledu a gwasanaethau digidol. I gyd-fynd â hyn, darlledwyd hysbysebion yn egluro i wylwyr sut y gallant ddefnyddio gwasanaethau digidol a gwasanaethau atodol. Rydym wedi mabwysiadu cyfres newydd o ddelweddau sy'n esbonio'r gwasanaethau atodol sydd ar gael, gan ddisodli'r canllawiau ysgrifenedig traddodiadol a oedd ar y sgrin.
- Er mwyn sicrhau bod gwefan S4C yn hygyrch i gymaint o bobl ag sy'n bosibl fe'i crëwyd gan ddefnyddio safonau rhyngwrwd a chanllawiau hygyrchedd rhyngwrwd o safon. Mae hyn yn sicrhau y bydd y wefan yn cynnal yr holl ddyfeisiau pori modern safonol, ond golyga hefyd fod y wefan yn haws i bobl anabl ei defnyddio.
- Bydd S4C yn noddi prosiect Llythrennedd yn y Cyfryngau drwy NIACE Dysgu Cymru ar gyfer grwpiau dysgu oedolion. Trefnir cyfres o 'sesiynau rhagflas' o dan y teitl 'Mwynhewch wrth edrych ar y cyfryngau modern.' Byddwn yn ceisio atebion i'r cwestiynau yma: Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y profiadau cyfryngol a bortreadir yn y *Sunday Times* neu yn *The Simpsons*? Ydy hysbysebion wir yn effeithiol? Beth yw'r gwahaniaeth rhwng papur tabloid a phapur 'trwm'? Pwy sy'n rheoli'r cyfryngau yn oes y rhyngwrwd? Bydd cyfranogwyr yn trafod pwy sy'n penderfynu beth rydym ni'n ei weld a'i ddarllen, er mwyn eu cyflwyno i lythrennedd yn y cyfryngau.

Gweithgareddau Penodol Eraill

- Yn 2006, fe rannodd S4C ei hymchwil ar agweddau pobl ifanc ynghylch byw drwy gyfrwng y Gymraeg, oedd yn cynnwys materion yn ymwneud â'r cyfryngau, (a gomisiynwyd mewn cydweithrediad â Chyngor Celfyddydau Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Theatr Genedlaethol Cymru), gyda phartneriaid y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol.
- Rydym wedi cydweithio gydag Addysg y Cyfryngau Cymru i greu gweithdai golygu i bobl ifanc i'w galluogi i olygu dilyniant dramatig neu olygfa sgwrsio, gan ddefnyddio *rushes* o gynrychiadau drama S4C.
- Gweithiodd S4C mewn partneriaeth â Bwrdd yr Iaith, y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig a BBC Cymru er mwyn trefnu digwyddiadau oddi ar y sgrin i ehangu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r ystod o gynnwys a chyfleodd i bobl broffesiynol a phobl gyffredin yn y diwydiannau creadigol.

Gweithgarwch Parhaol

- Bydd S4C yn rhoi rhybuddion ar y sgrin cyn darllediadau am unrhyw ddeunydd beiddgar neu raglenni a allai fod yn anaddas i blant, er enghraifft iaith gref, noethni neu ddelweddau treisgar.
- Rydym yn sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i bawb, er enghraifft drwy ddefnyddio isdeitlau Saesneg i rai nad ydynt yn siarad Cymraeg. Mae ein gwasanaeth isdeitlo Cymraeg wedi'i ddatblygu i alluogi siaradwyr Cymraeg sy'n drwm eu clyw, dysgwyr a'r rhai sy'n ansicr eu Cymraeg, i fwynhau ein gwasanaethau.
- Mae S4C yn unigryw yn cynnig isdeitlau mewn dwy iaith ar analog, Freeview ac yn enwedig ar Sky. Roedd y dewis olaf yma angen ymroddiad arbennig ar gyfer datblygu cymhwysiad sy'n galluogi'r gwyliwr i ddewis iaith yr isdeitlau drwy'r rheolydd llaw.
- Rydym yn cynnig gwasanaeth teletestun, 'Sbectel,' sy'n rhoi gwybodaeth am raglenni a gwasanaethau.
- Ar ein gwasanaethau digidol rydym yn cynnig gwasanaeth teletestun cyflawn. Mae modd symud rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn syml iawn drwy wasgu'r botwm melyn.
- Darperir Disgrifiadau Sain yn Gymraeg ar gyfer ystod o raglenni a chyflwynir rhaglenni gydag iaith arwyddion mewn slot rheolaidd ar brynawn Sadwrn.
- Rydym yn meithrin cysylltiadau adeiladol gyda grwpiau gwirfoddol ac addysgol a grwpiau eraill sydd â diddordeb yn y sector diwydiannau creadigol, yn ogystal â'r llywodraeth, ar bob lefel.
- Mae ein Gwifren Gwylwyr yn darparu gwybodaeth am wasanaethau rhaglenni a'r newid i deledu digidol, dros y ffôn, e-bost neu drwy'r post. Bydd gwybodaeth ddiweddar ar gael yn ddwyieithog ar wefan S4C www.s4c.co.uk. Mae'r Wifren ar gael i roi gwybodaeth i alwyr am wasanaethau digidol S4C a'r newid i ddigidol, ac mae'n cyfeirio pobl at Digital UK er mwyn cael gwybodaeth neu arweiniad pellach.
- Mae pob gohebiaeth â'r cyhoedd sy'n cael ei wneud yn enw S4C, gan gynnwys cylchgrawn chwarterol i wylwyr y Sianel, 'Sgrin,' sydd â chylchrediad o 40,000, yn rhoi manylion am sut i gael mynediad i wasanaethau digidol S4C.
- Mae'n bosibl cyrchu at fanylion 'Sut i gael S4C digidol ac S4C2' ar Freeview, Sky a chebl yng Nghymru a thu allan i Gymru mewn un symudiad o'n gwefan, sydd hefyd yn cynnwys rhifau sianeli. Ar y dudalen hon hefyd mae cysylltiad i wefan Digital UK sy'n cynnig cyngor am opsiynau teledu digidol.
- Fel rhan o'n hymgyrchoedd marchnata rydym yn defnyddio posteri mewn lleoedd cyhoeddus a mathau eraill o hysbysebion er mwyn cyrraedd y gynulleidfa fwyaf posibl. Byddwn yn hyrwyddo ein gwasanaethau digidol drwy gyfrwng y math hwn o ddeunydd marchnata yn ogystal â hyrwyddo rhaglenni penodol.
- Mae S4C wedi cyflwyno'r cynllun marchnata 'Get set for digital' ar ei gwasanaethau analog a digidol. Byddwn yn defnyddio'r logo tic digidol yn ein hysbysebion gwybodaeth a'n hyrwyddiadau ar y sgrin er mwyn hybu ymwybyddiaeth bellach o'r newid i ddigidol.
- Cynhelir cyfarfodydd cyhoeddus chwarterol mewn cymunedau ledled Cymru gan Gadeirydd a Phrif Weithredwr S4C. Mae'r Cyfarwyddwr Peirianeg a Thechnoleg yn aml yn bresennol i ateb cwestiynau technegol a chwestiynau penodol am dderbyn signal teledu yn lleol. Mae deunydd hyrwyddo Digital UK ar gael yn y cyfarfodydd hyn.
- Cynhaliwyd gweithdai cymunedol, a sefydlwyd ar y cyd â grwpiau lleol fel y Ffermwyr Ifanc, y Mentrau Iaith neu ysgolion a cholegau, cyn rhai o'n cyfarfodydd cyhoeddus er mwyn hyrwyddo elfennau amrywiol llythrennedd yn y cyfryngau. Mae'r cyfarfodydd cyhoeddus yn galluogi'r cyhoedd i ofyn cwestiynau i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr am unrhyw agwedd o'n gwasanaethau.
- Mae S4C yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus yn unswydd er mwyn cyflwyno ei gwasanaethau arlein i ddysgwyr. Gellir cael hyd i'r rhain at <http://dysgwyr.s4c.co.uk/>